



RHAGLEN HYFFORDDIANT AELODAU BWRDD ar gyfer 2014

10.00 am – 3.15 pm (gyda Chinio Rhwydweithio)

Cost: £180.00 fesul lle cynrychiolydd

Rhif Cwrs:	Teitl	Hyfforddydd	Lleoliad	Dyddiad
369	Mynd i'r Afael â Risg	Andy Ballard	Caerdydd	Dydd Iau, 8 Mai 2014
370	Ffurio a Chyflenwi Strategaeth	Karl George	Caerdydd	Dydd Mawrth 10 Mehefin 2014
371	Mae Llywodraethiant yn fwy na'r Bwrdd	Stephanie Bamford	Caerdydd	Dydd Mawrth, 23 Medi 2014
372	Asesu ac Adnewyddu Perfformiad Bwrdd	Marianne Skelcher	Caerdydd	Dydd Iau, 16 Hydref 2014
373	Datblygu Llythrennedd Ariannol	Karl George	Caerdydd	Dydd Mawrth, 11 Tachwedd 2014
374	Tu Hwnt i Gonsensws Cwrtais: Ymddygiad a Diwylliant Bwrdd	Allison Taylor	Caerdydd	Dydd Iau 4 Rhagfyr 2014

*I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â: Jennifer Horton, Swyddog Dysgu a Digwyddiadau
Cartrefi Cymunedol Cymru*

E-bost: Jennifer-horton@chcymru.org.uk

Ffôn: 029 2067 4809

Mynd i'r Afael â Risg

Digwyddiad Rhif: 369 – Dydd Iau, 8 Mai 2014 – Caerdydd

FFI: £180.00 fesul lle cynrychiolydd

HWYLUSYDD: Andy Ballard

Hyd yn ddiweddar roedd Andy yn Bennaeth Ymarfer Tai gyda chwmni cyfreithwyr Shoosmiths yn Birmingham ac mae'n dod â'r profiad hwnnw i'w waith fel ymgynghorydd tai. Bu hefyd yn flaenorol yn bartner yn Cobbetts. Dros y 25 mlynedd ddiwethaf, mae wedi cynghori nifer fawr o ddarparwyr tai ar feysydd mor amrywiol â llywodraethiant a materion cyfansoddiadol, strategaeth, uniadau a chaffaeliadau, trosglwyddo stoc, cyflogaeth, tai a rheoli asedau. Cydnabuwyd Andy fel arbenigydd ar gyfer cyngor i gymdeithasau tai gan y ddau brif gyfeiriadur cyfreithiol, Chambers a Legal 2000 ac yn 2009 cafodd ei enwi gan gylchgrawn *The Lawyer* yn 100 uchaf cyfreithwyr Prydain.

Andy yw cadeirydd Herefordshire Housing ac yn 2010 cafodd ei roi ar y rhestr fer am Gyfarwyddydd Anweithredol y flwyddyn yn y sector dim-er-elw yn *The Sunday Times*.

Ar hyn o bryd mae Andy yn darparu gwasanaethau mentora ar gyfer Cadeiryddion eraill ac yn helpu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i adolygu eu hymagwedd at werth am arian.

I GYNNWYS:

- Anghenion sicrwydd y Bwrdd
- Dynodi risgiau strategol lefel uchel
- Datblygu eich strategaeth risg
- Rheoli, lliniaru a monitro risg - rôl y Bwrdd, rôl staff
- Rôl pwyllgorau archwilio a risg
- Technegau rheoli risg
- Ffynonellau sicrwydd a chwestiynau allweddol i'w gofyn
- Agweddau cadarnhaol, rhagfarn ac amrywiaeth
- Pwysigrwydd dulliau rheoli mewnol effeithlon

Ffurio a Chyflenwi Strategaeth

Digwyddiad Rhif: 370 – Dydd Mawrth, 10 Mehefin 2014 - Caerdydd

FFI: £180.00 fesul lle cynrychiolydd

HWYLUSYDD: Karl George, MBE

Mae Karl yn arbenigo mewn llywodraethiant, strategaeth busnes, egwyddorion arweinyddiaeth ac entrepreneuriaeth. Mae'n ddyn busnes proffil uchel sydd wedi ennill llawer o wobrau, yn siaradwr ac awdur sy'n symbylu, ac athro gwadd ym Mhrifysgol Dinas Birmingham. Dyfarnwyd MBE iddo yn 2004 am ei wasanaeth eithriadol i'r cymunedau cymdeithasol a busnes.

Karl a sefydlodd ac ef yw prif weithredydd Cymdeithas Ymarferwyr Llywodraethiant Corfforaethol (ACGP) yn cynnig cymwysterau proffesiynol, datblygu proffesiynol parhaus a chyfleoedd rhwydweithio ar draws y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae Karl hefyd yn Gyfarwyddwr y Fforwm Llywodraethiant, grŵp o arbenigwyr llywodraethiant sy'n cydweitho i gyflawni safonau eithriadol mewn llywodraethiant yn y trydydd sector. Mae wedi datblygu'r Broses Asesu Llywodraethiant (GAP), safon traws-sector a gyflwynwyd i tua 100 o sefydliadau trydydd sector ac a gymeradwywyd gan Syr Adrian Cadbury, Cadeirydd Pwyllgor y Deyrnas Unedig a gyhoeddodd Cod Cadbury.

Mae Karl wedi gweithio i gymdeithas tai Nehemiah UCHA mewn swydd gadw am dros 10 mlynedd. Mae hefyd wedi darparu cefnogaeth ymgynghoriaeth i nifer fawr o gymdeithasau tai.

Mae Karl yn un o brif siaradwyr ac ymgynghorwyr busnes Prydain ym maes llywodraethiant ac yn cyflwyno rhaglen ddatblygu lwyddinnus 'Dewch ar y Bwrdd' ar gyfer pobl ifanc broffesiynol sydd â diddordeb mewn cael profiad ar lefel Bwrdd.

I GYNNWYS:

- Adfywio hanfodion strategaeth
- Meddwl yn greadigol am strategaeth
- O graffu i her strategol - cynllunio bwrdd y gwaith, cwestiynau gwerth uchel a thrafodaeth gynhyrchiol
- Risg fel disgyblaeth ac fel diwylliant
- Datblygu strategaeth mewn strwythur grŵp - deall strategaeth gorfforaethol a busnes
- Gweithredu strategaeth - arwain a rheoli newid

Mae Llywodraethiant yn fwy na'r Bwrdd

Digwyddiad rhif: 371 – Dydd Mawrth, 23 Medi 2014 – Caerdydd

FFI: £180.00 fesul lle cynrychiolydd

HWYLUSYDD: Stephanie Bamford

Mae Stephanie yn ymgynghorydd profiadol gyda chefnidir helaeth mewn llywodraethiant, adolygiadau strategol a gweithredol, rheoleiddio ac arolygu, cydraddoldeb ac amrywiaeth a chyfathrebu. Mae wedi gweithio'n flaenorol yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Fel ymgynghorydd, mae Stephanie wedi cynghori cleientiaid ar ystod eang o welliannau llywodraethiant, cynnal adolygiadau opsiynau strategol a strwythur trefniadol, gweithio ar newidiadau strwythur grŵp a diwydrwydd dyladwy, a chynnal aseiniadau rheolaeth interim. Mae hefyd wedi cefnogi cleientiaid wrth baratoi ar gyfer a chynllunio gweithredu yn dilyn arolwg y Comisiwn Archwilio.

Mae Stephanie yn aelod o Fwrdd A2Dominion Homes, yn aelod o Bwyllgor Archwilio a Risg A2D ac yn Hyrwyddwr Amrywiaeth A2D. Mae'n Ymddiriedolydd y Gymdeithas Cynllunio Tref a Gwlad a'r Sefydliad Adeiladu a Thai Cymdeithasol. Mae'n gyn Gadeirydd Rhwydwaith Ymgynghori Tai CHLM Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig.

I GYNNWYS:

- Adnewyddu rolau a chyfrifoldebau
- Gweithio ar y cyd gyda swyddogion gweithredol
- Ychwanegu gwerth i'r Bwrdd
- Gwneud y defnydd gorau o rôl Ysgrifennydd Cwmni
- Cryfhau 'atebolrwydd llorweddol'
- Cyd-reoleiddio ac ymgysylltu tenantiaid mewn llywodraethiant - rhoi defnyddwyr gwasanaeth yng nghanol llywodraethiant
- Rheolaeth ddeallus ar randdeiliaid
- Llywodraethiant gweithio partneriaeth
- Mynd i'r afael gydag atebolrwydd
- Llywodraethu mewn strwythur grŵp



Asesu ac Adnewyddu Perfformiad Bwrdd

Digwyddiad Rhif: 372 – Dydd Iau, 16 Hydref 2014 – Caerdydd

FFI: £180.00 fesul lle cynrychiolydd

HWYLUSYDD: Marianne Skelcher CFCIPD, Cyfarwyddyd Siartredig

Gyda chymwysterau a phrofiad fel hyfforddwydd gweithredwyr a thimau, mae gan Marianne dros 30 mlynedd o brofiad mewn arwain newid, hwyluso a datblygu sefydliadol yn y sector tai fforddiadwy. Mae wedi canolbwyntio ar ddatblygiad byrddau ers 2007, ac mae ganddi bortffolio o rolau cyfarwyddwyr anweithredol mewn busnes, tai fforddiadwy ac ieuchyd ac addysg. Yn Gyfarwyddyd Siartredig gyda'r IoD, mae wedi datblygu a gweithredu dulliau 360 pwrpasol i werthuso bwrdd, adolygiadau effeithlonrwydd bwrdd a chynllunio datblygiad bwrdd, ar gyfer nifer fawr o sefydliadau.

I GYNNWYS:

- Atebolrwydd go iawn
- Sicrhau gwerth ychwanegol
- Diweddariad ar arfer gorau mewn gwerthuso; tu hwnt i hunanasesiad
- Beth mae'r Bwrdd eisiau ei wybod? Dulliau a chynghor da
- Adolygu sut y cynhaliwn fusnes - o ddylunio gwaith y bwrdd i gael yr wybodaeth gywir i wneud penderfyniadau da
- Cynllunio olyniaeth - sut i wneud
- Gwellu ymddygiad busnes: cynllunio gwaith y bwrdd
- Tyfu'r gronfa talent

Datblygu Llythrennedd Ariannol

Digwyddiad Rhif: 373 – Dydd Mawrth, 11 Tachwedd 2014 -
Caerdydd

FFI: £180.00 fesul lle cynrychiolydd

HWYLUSYDD: Karl George MBE

Mae Karl yn arbenigo mewn llywodraethiant, strategaeth busnes, egwyddorion arweinyddiaeth ac entrepreneuriaeth. Mae'n ddyn busnes proffil uchel sydd wedi ennill llawer o wobrau, yn siaradwr ac awdur sy'n symbylu, ac athro gwadd ym Mhrifysgol Dinas Birmingham. Dyfarnwyd MBE iddo yn 2004 am ei wasanaeth eithriadol i'r cymunedau cymdeithasol a busnes.

Karl a sefydlodd ac ef yw prif weithredydd Cymdeithas Ymarferwyr Llywodraethiant Corfforaethol (ACGP) yn cynnig cymwysterau proffesiynol, datblygu proffesiynol parhaus a chyfleoedd rhwydweithio ar draws y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae Karl hefyd yn Gyfarwydd y Fforwm Llywodraethiant, grŵp o arbenigwyr llywodraethiant sy'n cydweitho i gyflawni safonau eithriadol mewn llywodraethiant yn y trydydd sector. Mae wedi datblygu'r Broses Asesu Llywodraethiant (GAP), safon traws-sector a gyflwynwyd i tua 100 o sefydliadau trydydd sector ac a gymeradwywyd gan Syr Adrian Cadbury, Cadeirydd Pwyllgor y Deyrnas Unedig a gyhoeddodd Cod Cadbury.

Mae Karl wedi gweithio i gymdeithas tai Nehemiah UCHA mewn swydd gadw am dros 10 mlynedd. Mae hefyd wedi darparu cefnogaeth ymgynghoriaeth i nifer fawr o gymdeithasau tai.

Mae Karl yn un o brif siaradwyr ac ymgynghorwyr busnes Prydain ym maes llywodraethiant ac yn cyflwyno rhaglen ddatblygu lwyddinnus 'Dewch ar y Bwrdd' ar gyfer pobl ifanc broffesiynol sydd â diddordeb mewn cael profiad ar lefel Bwrdd.

I GYNNWYS:

- Adfywio'r fantolen, cyfrif incwm a gwariant a chymarebau allweddol
- Paratoi ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor cyllid ac archwilio
- Holi a chraffu ar bapurau ariannol bwrdd
- Deall gofynion datgeliadau ariannol
- Cyfrif cymarebau allweddol drwy gyfeirio at ddatganiadau ariannol
- Dehongli cymarebau allweddol a dangosyddion perfformiad
- Yr hyn a olygwn gan werth cymdeithasol
- Datblygu eich strategaeth gwerth am arian



Tu Hwnt i'r Consensws Cwrtais: Ymddygiad a Diwylliant Bwrdd

Digwyddiad Rhif: 374 – Dydd Iau, 4 Rhagfyr 2014 – Caerdydd

FFI: £180.00 fesul lle cynrychiolydd

HWYLUSYDD: Allison Taylor MBA MCM

Mae Allison yn arbenigo mewn cyfryngu yn y gweithle, hyfforddi gweithredwyr, cynllunio busnes a strategaeth adnoddau dynol ac adeiladu tîm. Mae'n angerddol am hwyluso twf a pherfformiad arweinwyr a rheolwyr. Mae gan Allison achrediad a chymwysterau fel cyfryngydd, ymarferydd NLP a Hyfforddwr Gweithredwyr gyda chymwysterau AoEC. Mae ganddi hefyd drwydded i ddefnyddio dull Dangosydd Math Myers Briggs.

Mae cefndir Allison yn golygu fod ganddi dros 20 mlynedd o brofiad yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn cyflenwi canlyniadau ac yn dangos budd real ar fuddsoddiad gydag ymarfer blaengar a dulliau gwobrwyol. Mae'n frwd am welliant parhaol a chanfod ffyrdd i arwain newid yn effeithlon fel y gall arweinwyr gynnal y gwelliannau y gwnaethant eu rhagweld.

Mae Allison yn fentor proffesiynol yn Ysgol Fusnes Aston. Bu ganddi gomisiwn swyddog yn yr RAF VRT a bu'n aelod o Fwrdd Monitro Annibynnol carchar. Mae'n aelod o Fwrdd cymdeithas tai ac yn ei hamser hamdden mae'n adeiladu Supermarine Spitfire 90% maint.

I GYNNWYS:

- Sgiliau meddwl strategol
- Cwestiynau cynhyrchiol
- Gwneud penderfyniadau effeithlon
- Pwysigrwydd amrywiaeth wrth wneud gwell penderfyniadau
- Gwella sgiliau herio - adeiladu partneriaeth gyfartal
- Defnyddio grym a dylanwad
- Ymarfer arweinyddiaeth